**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 17 Chwefror, 2020**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 20 Chwefror, 2020. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 27 Chwefror, 2020. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 28 Chwefror, 2020.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr G.O.Jones, Dafydd Roberts

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS

(10:00 y. b. tan 10:35 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 3 **Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir gofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –**<br><br>• **13 Ionawr, 2020**<br>• **20 Ionawr, 2020**<br>• **27 Ionawr, 2020** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 4 **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Mawrth hyd at Hydref, 2020 gyda'r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir –**<br>• **Ei fod yn cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb drafft y Cyngor ar gyfer 2020-2024, ac awdurododi Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio i gwblhau'r Cynllun a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2020.**<br>• **Bod trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fonitro fel mater o drefn yn flynyddol y cynnydd o ran cydraddoldeb.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio gyda gofynion statudol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mae'r Cynllun yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Polisi Cymorth Dewisol Trethi Busnes**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Mabwysiadu Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arni yn Atodiad C yr adroddiad.**<br>• **Bydd y Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol mewn grym ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 31 Mawrth, 2026.**<br>• **Rhoi cyfarwyddiadau i'r** |

| | |
|---|---|
| | **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 sicrhau y rhoddir gwybod cyn 31 Mawrth, 2020 i elusennau perthnasol a sefydliadau dielw y bydd y polisi mewn grym o 1 Ebrill, 2020 ac y daw i ben ar 31 Mawrth, 2026.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn mabwysidu Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol – Elusennau a Sefydliadau Dielw** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 7 **Rhenti'r CRT a Thaliadau'r Gwasanaeth Tai 2020/21**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliad dros 51 wythnos.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd o 2.7% yn yr holl renti sydd rhwng £0.41 - £4.47 yn is na'r targed yn ogystal â swm hyd at yr uchafswm o £2.00 yr wythnos i gyrraedd y rhent targed.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd o 2.7% yn yr holl renti sydd rhwng £3.87 - £5.01 yn is nar targed a £2.00 ychwanegol yr wythnos.**<br>• **Bod y rhent ar gyfer y 3 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd o 22c yr wythnos ar gyfer rhenti'r holl garejys.**<br>• **Cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3 yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Rhenti'r CRT a Thaliadau Gwasanaeth Tai am 2020/21** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Polisi Gwirio ar Sail Risg - Budd Dal**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi a chymeradwyo'r cynnig bod yr Adain Fudd-daliadau yn cyflwyno proses wirio yn seiliedig ar risg ar gyfer gweinyddu Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.**<br>• **Cymeradwyo'r Polisi Gwirio ar sail Risg fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.**<br>• **Cyfarwyddo'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gyflwyno proses wirio ar sail risg yn unol â'r amserlen gytunedig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gyflwyno Polisi Gwirio ar sail risg ar gyfer Budd-dal Tai a cheisiadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |